Pennnaeth/Headteacher
Angharad Vaughan-Owen
e-bost / e-mail
angharad.vaughan-owen@gorslas.ysgolccc.cymru
neu/or admin@gorslas.ysgolccc.cymru

Heol yr Eglwys
Gorslas
Llanelli
SA14 7NF

# DATHLU LLWYDDIANNAU GORSLAS 2023-24CELEBRATING SUCCESS
## Adroddiad Blynyddol yr Ysgol i rieni 2023-24
## School's Annual Report to Parents 2023-24

Annwyl Rhieni / Gwarchodwyr,

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn i chi, am fllwyddyn academaidd lwyddiannus arall. Hoffwn ddiolch i deulu ein hysgol – staff, rhieni, Llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned ac yn bwysicaf oll y plant am eich holl waith caled y llynedd. Mae cydweithio fel un tîm wedi sicrhau bod Ysgol Gorslas yn parhau i ddatblygu, rhagori a bod yn ganolbwynt i'r pentref.

Mae'r ysgol wedi profi llwyddiannau ar sawl lefel ac mae'r ysgol wedi sicrhau bod ein dysgwyr yn parhau i gael y cyfleoedd a'r profiadau gorau posibl o fewn a thu allan i furiau'r ysgol. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein hadnoddau, gan sicrhau bod ein plant yn cael y cyfleusterau gorau, cyfleoedd ac addysgu rhagorol.

Yn Ysgol Gorslas, credwn yn gryf mewn lles disgyblion, ac mae hyn yn parhau i fod yn un o'n prif flaenoriaethau. Bu newid cyffrous a phellgyrhaeddol i Bolisi Addysg Cenedlaethol yn ddiweddar, ac yn ein hysgol ni, rydym wrthi yn cyflwyno ein cwricwlwm newydd ac arloesol yn ogystal â sicrhau bod egwyddorion trawsnewid ADY wedi'u gwreiddio yn ein gwaith bob dydd.

Edrychwn ymlaen yn fawr at adeiladu'n fwy ar hyn i gyd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Angharad Vaughan-Owen

(Pennaeth)

Dear Parents / Carers,

It gives me great pleasure to present this report to you, following yet another successful year. I would like to thank the whole community at Ysgol Gorslas – staff, parents, Governors, members of the community and most important the children for all your hard work this year. Working together as one team has ensured that Ysgol y Gorslas continues to develop, excel and be a focal point of the

Village.

The school has experienced successes at many levels and the school has ensured that our pupils continue to receive the best possible opportunities and experiences within and outside the school walls. We have continued to invest in our resources, ensuring our children have the best facilities, opportunities and excellent teaching.

At Ysgol Gorslas we strongly believe in pupil wellbeing, and this continues to be one of our main priorities. There have been some exciting and far-reaching change to National Education Policy recently, and at Ysgol Gorslas we have introduced our new and innovative curriculum as well as ensuring that the principles of the ALN transformation is embedded in our everyday work.

We very much look forward to building even further on this success during the next academic year.

Angharad Vaughan-Owen

(Headteacher)

Pennnaeth/Headteacher
Angharad Vaughan-Owen
e-bost / e-mail
angharad.vaughan-owen@gorslas.ysgolccc.cymru
neu/or admin@gorslas.ysgolccc.cymru

Heol yr Eglwys
Gorslas
Llanelli
SA14 7NF

# Cyfarchiad y Cadeirydd
# Chair's Welcome

Pleser yw cyflwyno yr adroddiad flynyddol hwn o weithgarwch yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024.

Hoffwn ddiolch i'r pennaeth a'r uwch dîm am eu harweiniad cadarn, ac i bob aelod o staff am eu hymroddiad drwy gydol y flwyddyn. Heb eu gwaith diflino fe fyddai bywyd academaidd ac allgyrsiol ein plant dipyn tlotach.

Bu'n flwyddyn hynod brysur, a braf oedd croesawu cymaint o aelodau'r gymuned i ddathlu'r Nadolig gyda ni yn ein Noson Garolau.

Mae plant Gorslas yn ffodus iawn o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt, a cheir blas ar hynny yn yr adroddiad hwn. Rhaid canmol y disgyblion am eu llwyddiannau ymhob maes. Diolch i chi, rieni, warcheidwaid a chymuned yr ysgol am bob cefnogaeth ar hyd y flwyddyn – mae meithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn yn bwysig i ni yn yr ysgol, a gwerthfawrogwn bob cyfraniad.

Rydym yn ffodus iawn o gefnogaeth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae eu gwaith caled yn allweddol a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu gwaith diflino yn cefnogi'r ysgol. Wrth i ysgolion wynebu heriau ariannol yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd cyfraniad ariannol y gymdeithas yn adnodd amhrisiadwy.

Edrychwn ymlaen yn hyderus felly at y dyfodol. Ar ran fy nghydlywodraethwyr, hoffwn ddymuno pob llwyddiant i gymuned yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Shan Thomas, Cadeirydd y Corff Llywodraethol

I am delighted to present to you the school's annual report summarising the school's activities during the 2023-2024 academic year.

I would like to express my gratitude to the headteacher and senior leadership team for their steadfast leadership and to the dedication of our entire staff, which has played a pivotal role in enriching the academic and extracurricular experiences of our pupils. Without their tireless efforts, our school's vibrant community would not be as thriving as it is.

This past year has been very busy, and it was great to welcome so many members of the local community to join with in celebrating Christmas during our Carol Evening.

Our children are fortunate to have a wide array of opportunities, as outlined in this report. They are to be commended for their outstanding achievements across various fields. A heartfelt thank you goes out to parents, guardians, and the entire school community for your unwavering support. Building a sense of community and belonging is a core value for us at school, and your contributions are highly appreciated.

The Parents and Teachers Association has been a pillar of support, and their hard work has been instrumental. We express our sincere thanks to them for their tireless efforts in assisting the school. In the face of financial challenges that schools will encounter in the coming years, the association's financial contribution is truly invaluable. We look ahead to the future with confidence.

On behalf of my fellow governors, I extend our best wishes to the entire school community for a successful academic year ahead.

Shan Thomas, Chair of the Governing Body

# PWY 'DI PWY AR Y CORFF LLYWODRAETHOL
# WHO'S WHO ON THE GOVERNING BODY

Rhif Corff Llywodraethol / Governing Body No. 93

**Mae pob aelod o'r Corff Llywodraethol gan eithrio'r Pennaeth yn gwasanaethu am 4 blynedd.**

**very member of the Governing Body except the Headteacher serves for 4 years**

| Aelodaeth o'r Corff Llywodraethol/Governing Body Membership | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Enw** | **Rôl llywodraethwr** | **Dyddiad Dechrau** | **Dyddiad Gorffen** | **Maes cyfrifoldeb aelod y CLl** |
| Angharad Vaughan-Owen | **Pennaeth** | **01/09/23** | | |
| Shan Thomas | **Cadeirydd(es) y CLl : Cymunedol** | **22/11/21** | **21/11/25** | Diogelu, Presenoldeb, ADY, Pay Review, Iaith, Llythrennedd a chyfathrebu, Datblygu Perfformiad y Pennaeth, ARhCh, Finance, Premises & Health and Safety, Cwricwlwm |
| Matthew Jenkins | **Is Gadeirydd(es) : ALl** | **19/07/23** | **18/07/27** | Is-gadeirydd, Pay Review, Performance management, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>Datblygu Perfformiad y Pennaeth, Finance, Premises & Health and Safety, TGCh |
| Angharad Price | **Staff (Addysgu)** | **23/11/19** | **11/11/27** | ARhCh, |
| Alison Collins | **Staff (Cynorthwyol)** | **18/11/19** | **17/11/27** | Celfyddydau Mynegiannol |
| Daniel Hughes | **Rhiant** | **13/10/23** | **12/10/27** | Is – bwyllgor Cwricwlwm, Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>ADY/MAT/LAC |
| Sophie Bennett | **Rhiant** | **05/11/23** | **04/11/27** | Diogelu, Cyfleoedd Cyfartal, Finance, Premises & Health and Safety |
| Jess Rees | **Rhiant** | **05/11/23** | **04/11/27** | Is – bwyllgor Cwricwlwm, Celfyddydau Mynegiannol |
| Dafydd Lloyd | **Rhiant** | **08/11/23** | **07/11/27** | Mathemateg a Rhifedd,<br>Health & Safety Premises |
| Craig Davies | **ALl** | **02/09/23** | **01/09/27** | Iaith, Llythrennedd a chyfathrebu, whistleblowing, Finance, Premises & Health and Safety, Dyniaethau, Leadership & Management |
| Geinor Lewis | **ALl** | **04/12/23** | **03/12/27** | |
| Elinor Goldsmith | **Cymunedol Ychwanegol** | **25/06/24** | **24/06/27** | Pay Review, Dyniaethau, Health & Safety Premises |
| Melody Goronw | **Cymunedol** | **05/03/24** | **04/03/28** | |
| Menna Walters | **Cymunedol** | **05/03/24** | **04/02/28** | |

**Clerc i'r Llywodraethwyr / Clerk to the Governors**
**Mrs Sarah MacDonald**

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, cysylltwch trwy ddanfon llythyr neu e-bostio. Croesawn eich cyfraniad ar bob achlysur.**

**If you have any enquiry or comment for the Board of Governors, you either write a letter or emailing the school. Your contribution is always welcomed.**

**Cwynion / Complaints**
Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2023 / 2024
No complaints were received during 2023 / 2024

# Trefn yr Ysgol / School Organisation
# (Blwyddyn Ysgol 2023-2024)

| **Nifer y disgyblion ar gofrestr yr Ysgol / Number of pupils on the School register** | **218** |
|---|---|
| Nifer o Staff Dysgu / Number of Teaching Staff | 8 |
| Cynorthwywyr Dysgu / Teaching Assistants | 8 |
| Swyddog Cymorth Gweinyddol / Administrative Support Officer | 1 rhan amser/part time |
| | |

# Trefn y Dosbarthiadau / Classroom Organisation

| Blwyddyn ysgol | Staff | Nifer o blant / |
|---|---|---|
| **Meithrin llawn (N2)**<br>Hadau Bach | **Christian Evans/Louise Davies/Amanda Griffiths HLTA** | 26 |
| **Derbyn**<br>Y Dderwen | **Angharad Price** | 16 |
| **Blwyddyn 1**<br>Onnen | **Diane Thomas** | 32 |
| **Blwyddyn 2**<br>Collen | **Hannah Davies/Rebecca Davies** | 19 |
| **Blwyddyn 3**<br>Ffawydden | **Sarah Haynes/Tom Parry/Louise Davies** | 27 |
| **Blwyddyn 4**<br>Bedwen | **Christian Evans** | 26 |
| **Blwyddyn 5**<br>Celyn | **Angharad Richards** | 23 |
| **Blwyddyn 6**<br>Sycamorwydden | **Alun Roberts** | 29 |

# Staff Cynorthwyol

| | |
|---|---|
| Sasha Anderson, Elinor Collins, Maree Jones, Enid Davies, Amanda Griffiths, Allison Collins, Carol Jones, Ann Davies, | Cynorthwywyr Dysgu/ Teaching Assistants |
| Wendy Tinnuche | Swyddog Gweinyddol Dros Dro |
| Carol Thomas, Anita Macallum, | Cogyddion / Cooks |
| Giv Mack | Gofalwr / Caretaker |

*Gweithio Gyda'n Gilydd, Dysgu Gyda'n Gilydd, Tyfu Gyda'n gilydd.*

# YSGOL GYNRADD GORSLAS

Arwyddair yr ysgol yw:

***Gweithio gyda'n gilydd, dysgu gyda'n gilydd, tyfu gyda'n gilydd.***

The school's mission statement is:

***Working together, learning together, growing together.***

**Gwerthoedd Newydd yr ysgol/School's new values.**




# POLISI IAITH / LANGUAGE POLICY

Ysgol gyfrwng Gymraeg yw Ysgol Gynradd Gorslas ac felly Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Derbynnir plant y dosbarth derbyn eu haddysg o'r diwrnod cyntaf yn y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg ym mlwyddyn 3 lle cynigir gwersi iaith Saesneg. Darperir gohebiaeth ddwyieithog i bawb. Mae gwefan newydd yr ysgol yn ddwyieithog.

Ysgol Gorslas is a Welsh medium school therefore Welsh is our primary language. Pupils as they start in the reception class receive all their education through the medium of Welsh. English is introduced formally at year 3 whereby pupils receive English language lessons. All correspondence, including the school's new website are bilingual.

# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL/ADDITIONAL LEARNING NEEDS

Mae polisi ADY yr ysgol yn un effeithiol ac eang ac yn un sy'n cyflawni gofynion y Cod Ymarfer. Mae 9 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac rydym yn awyddus i glustnodi unrhyw anawsterau sydd gan y plant cyn gynted ag y bo modd, ac ymateb iddynt yn y ffordd mwyaf priodol. Ystyrir bod ymyrraeth gynnar yn angenrheidiol i sicrhau diwallu anawsterau ag anghenion y plentyn unigol. Mae Mrs Angharad Price, ein CADY yn cyd-weithio â'r athrawon dosbarth a'r cynorthwywyr i sicrhau bod y sesiynau unigol a dderbynia'r plant yn cael eu hymestyn a'u hymarfer yn feunyddiol o fewn gweithgarwch y dosbarth. Mae gan bob disgybl broffil un tudalen, boed yn broffil arferol, yn broffil plws neu'n broffil Estynedig.

Daniel Hughes a Shan Thomas sydd wedi eu henwi fel llywodraethwr cyswllt yn y maes.

We have comprehensive procedures that meet the requirements of the Code of Practice. We have 9 pupils on the register, as we regard it essential that any difficulties or needs are addressed as soon as possible, early intervention is an essential part of ensuring that all pupils needs are met. Mrs Cath Thomas works with all the staff to develop a whole school approach in order that the individual sessions are developed and extended through classroom activities. All learners have a one page profile be it an origina profile, a one page profile plus or an extended Profile.

Daniel Hughes and Shan Thomas are the link governers for ALN.

*Gweithio Gyda'n Gilydd, Dysgu Gyda'n Gilydd, Tyfu Gyda'n gilydd.*

## AMCANION A CHYNLLUN CYDRADDOLDEB AC ANABLEDD

Nid oes unrhyw ddisgyblion anabl ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r ysgol wedi'i hadeiladu yn bwrpasol ac yn addas ar gyfer unrhyw berson anabl. Ceir gopi o gynllun ac amcanion cydraddoldeb yr ysgol ar y wefan.

There are no disabled pupils on the register at present. The school building is purposely built and is suitable for any disabled pupil/adult. A copy of the school's Equality plan is published on the website.

## AMDDIFFYN PLANT / CHILD PROTECTION

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol a'r polisi Amddiffyn Plant yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant (Pennaeth) am unrhyw ddiffygion/peryglon a phryderon yn syth.

The school's Health and Safety policy and the Child Protection policy reflect the wish of the Governing Body to provide a safe and secure environment for both pupils and staff. All members of staff are advised of their duty to report any deficiencies/dangers and concerns to the Health and Safety/Child Protection Officer (the headteacher) immediately.

## IECHYD A DIOGELWCH / HEALTH AND SAFETY

Mae'r adeilad yn ddyflwydd oed erbyn hyn ac yn darparu cyfleusterau o safon uchel ar gyfer ei ddisgyblion. Caiff yr adeilad ei gadw a'i gynnal dan arweiniad Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r gwasanaeth glanhau. Mae cyfleusterau, megis toiledau yn cael eu cadw'n lân gan y ddau lanheuwraig ac maent yn ddigonol ar gyfer y nifer o blant yn yr ysgol.

The building is now eleven years old and continues to be in a good state, providing excellent and modern facilities for its pupils and staff. The school is maintained and kept well under the service level agreement between the school and Carmarthenshire County Council. The toilets are kept clean and hygienic by the two cleaners and these facilities conform with the Welsh Government guidelines.

TOILETS?????

## PROSPECTWS YR YSGOL/ SCHOOL PROSPECTUS

Gwelir copi o brosbectws newydd yr ysgol ar ein gwefan newydd ynghyd â nifer o ddogfennaeth a pholisïau eraill. Ysgol Gorslas

A copy of the new prospectus along with other informative documents and policies are on our new school website. Ysgol Gorslas

## CLWB BRECWAST / BREAKFAST CLUB

Mae'r clwb am ddim a gaiff ei gynnal yn y neuadd ginio rhwng 8:05 a 8.50yb

**Mynediad olaf i'r clwb yw 8.30yb**

The breakfast club is free and is held at the school hall between 8:05 and 8.50am.

**Last admission to the club is at 8.30am**

## CLWB GOFAL AR ÔL YSGOL

**CLWB HEINI**

Arweinydd/Leader: Sam Williams—Sasha Anderson

Rhif ffôn Symudol
Mobile Number

3.30 - 5.25pm




## Diwrnod Ysgol /School Day

**Dysgu Sylfaen**
**Foundation Learning**
9:00 - 11:40
11:40 - 13:00 CINIO / LUNCH
13:00 - 3:30

**Blynyddoedd 3—6**
**Years 3—6**
9:00 - 12:00
12:00 - 13:00 CINIO / LUNCH
13:00 - 3:30

# CWRICWLWM AC ASESU / CURRICULUM AND ASSESSMENT

Yn dilyn blwyddyn brysur arall, mae'r holl staff i'w canmol am safon y ddarpariaeth a gynigir i'r dysgwyr. Gweithia pob un yn gydwybodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer yr holl ddysgwyr. Traciwn gynnydd disgyblion trwy gynnal cyfarfodydd cynnydd tymhorol ac asesir cynnydd plentyn ymhob rhan o'i waith ac, os oes angen, cysylltir â rhieni.

Ein nod fel ysgol yw addysgu plant i'w llawn botensial mewn awyrgylch hapus, diogel a chartrefol. Mae'n angenrheidiol i blant gael eu haddysgu a'u datblygu'n emosiynol, cymdeithasol, corfforol moesol a deallusol.

Y mae gan yr ysgol hefyd bolisi cydraddoldeb. Ceisir hyrwyddo'r polisi trwy ei gynnwys yn y cwricwlwm a'r gwersi a addysgir pan fydd cyfle. Yn dilyn Deddf Addysg 1998 a'r newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn y blynyddoedd diwethaf, y mae'r ysgol yn llunio ac yn diwygio polisïau i egluro sut y diwellir y gofynion.

Trwy ddefnyddio dull dysgu sydd wedi ei seilio ar themâu ac yn fwy diweddar trwy'r dull ymholi, mae ein Cwricwlwm yn sicrhau bod pob unigolyn yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned ein hysgol. Mae'r Cwricwlwm yn gytbwys, yn berthnasol, yn wahaniaethol ac yn eang ei sylfaen.

Mae 4 diben wrth wraidd ein Cwricwlwm yma yng Ngorslas. Ein nod yw rhoi'r cyfle i bob unigolion ddatblygu i fod:

- yn ddinasyddion Egwyddorol a Gwybodus
- yn unigolion Iach a Hyderus
- Yn gyfrannwr mentrus a chreadigol
- Yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog


Mae holl waith y dysgwyr bellach yn seiliedig ar y chwe maes dysgu a phrofiad:

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Celfyddydau Mynegiannol.

Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod pob plentyn yn tyfu i fod yn ymwybodol o'u diwylliant a'u hunaniaeth Gymreig.









## CYNLLUN DATBLYGU YSGOL

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithiol, sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n deillio o'r argymhelliad a wnaed gan ymweliadau cefnogi â gweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol.

Mae hefyd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd â dadansoddiad o ddata mewnol a chanlyniadau diwedd cyfnod allweddol. Caiff y targedau eu gwerthuso'n rheolaidd yn erbyn cerrig milltir sydd wedi eu gosod.

**Blaenoriaethau 2023-2024**

- **Cryfhau ymhellach prosesau ar gyfer hunanarfarnu sy'n cynnwys pob un o'r staff a'r rhanddeiliaid.**
- **Darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig.**
- **Adborth ac asesu – Sicrhau ansawdd adborth pwrpasol ac asesu effeithiol fel modd i hyrwyddo dysgu grymusol. Sicrhau lefel briodol o her i gefnogi'r dysgwyr i ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu.**

# CWRICWLWM AC ASESU / CURRICULUM AND ASSESSMENT

**SCHOOL DEVELOPMENT PLAN**
The School Development Plan is a working document, which addresses the priorities resulting from the recommendations from ERW advisor visits and the self evaluation procedures initiated at school.

It also considers national and local priorities and an analysis of the end of stage results data. The targets are appraised regularly.

**2023/24 PRIORITIES**

- **Further strengthen processes for self-evaluation involving all staff and stakeholders.**
- **Provide more opportunities for learners to develop their extended writing skills.**
- **Feedback and assessment – Quality assurance of bespoke feedback and effective assessment as a means to promote empowering learning. Ensure an appropriate level of challenge to support learners to develop their skills to the best of their ability.**

All the staff are to commended for the quality of provision offered to all our learners again this last academic year. All work conscientiously to ensure the best education for all our pupils. We track pupils' by conducting termly pupil's progress meeting and every child's progress is continually assessed over every aspect of their work, and, if necessary, the parents contacted.

Our aim as a school is to educate children to their full potential in a happy, safe homely/comfortable environment. It is vital that children be educated and developed emotionally, socially, physically, morally and intellectually.

The school has an equal opportunities policy. An effort is made to promote this policy by including it in the curriculum and at every opportunity during the lessons taught. Following the 1998 Education Act and recent changes the national curriculum, the school produces and revises its policies to clarify how it meets the stated requirements.

By using a teaching and learning method which is based on themes and more recently Inquiry Based Learning, our curriculum ensures that every child are fully enrolled as valuable members of our school community. We ensure a broad, balanced, relevant and differentiated curriculum to all.


4 purposes at the heart of our Curriculum here at Ysgol Gorslas. We aim to give all individuals the opportunity to develop into:

- knowledgeable and informed citizens
- Healthy and Confident individuals
- enterprising and creative contributors
- ambitious and capable learners

All learners' work is now based on the six areas of learning and experience:

- Language, Literacy and Communication
- Mathematics and Numeracy
- Science and Technology
- Humanities
- Health and Well Being
- Expressive Arts.

Our curriculum is aimed to ensure that every child develops an awareness, understanding and respect towards their Welsh culture and identity.



*Gweithio Gyda'n Gilydd, Dysgu Gyda'n Gilydd, Tyfu Gyda'n gilydd.*

# Y GYMUNED 2023—2024 COMMUNITY LINKS

## CRhA/PTA

Dymunwn ddiolch yn fawr I'r GRhA am drefnu'r holl weithgareddau i godi arian er mwyn darparu adnoddau a phrofiadau i'r dysgwyr yn ystod 2023-24. Yn ystod y flwyddyn maent wedi codi'r swm anhygoel o £4521.45.

Mae'r arian yma wed i mynd tuag at adnoddau megis crysau T chwaraeoen newydd, tei perfformio newydd i'r Eisteddfod , peli rwyd a pheli droed newydd i'r clybiau chwaraeon.

DIOLCH YN FAWR!

We would like to thank the PTA very much for organising all activities and raising funds to provide additional resources and experiences for our learners. During this year they've raised an incredible £4,521.45.

This additional money has supported us in purchasing resources such as new sports T-shirts, new school ties for the Eisteddfod, netballs and footballs for our sports clubs.
THANK YOU!

Mae ein hymgyrch i barhau i ddatblygu cysylltiadau a phartneriaethau â'r gymuned yn un sydd wrth wraidd ein gwerthoedd. Mae'r pennaeth yn rhan o Bwyllgor Llesiant Gorslas sydd dros y blynyddoedd wedi llwyddo i gynnig amrywiaeth o weithgareddau i'r gymuned. Mae'n braf gweld bwrlwm yn y gymuned, gyda'r cyfleusterau'n cael eu defnyddio a chyfleoedd yn codi i blant yr ysgol allu integreiddio yn ein cymuned. Hyfryd oedd gweld ffrwyth gwaith y Cyngor ysgol a'r Cyngor Cymuned yn cydweithio i greu arwyddion newydd ar gyfer y parc.

Developing stronger community links is at the heart of our School Values. The Headteacher is a committee member of Gorslas Welfare Association which has successfully organised a varied itinerary of events and activities for the whole community. It's great to see the community thriving again with opportunities for the pupils to participate and integrate with as many community events as possible. It was wonderful to watch our school council work so closely with our Community Council to produce new signs for our park.

### Gwaith Elusennol / Charity Work

Yn ystod y flwyddyn a fu codwyd dros £700 tuag at elusennau amrywiol.

During the last year more than £700 was raised towards a variety of charities.

## YMWELWYR I'R YSGOL/VISITORS TO SCHOOL

- Ymgynghorydd Cefnogi Addysg / Education Support Advisor
- Seicolegydd Addysg/Educational Psychologist
- Kerbkraft
- PC Ali
- Nyrs Ysgol / School Nurse
- Nyrs Brechiad ffliw/Flu Vaccine nurses
- ACTIF SPORTS & LEISURE
  Menter Cwm Gwendraeth Elli
- CISP
- Mr Urdd
- Bethan Evans-Phillips Eco 'Sgolion
- Cefnogi Ymddygiad/Behaviour Support
- Cynllun Gwén
- Ynni Da
- Alice yr Ymwelydd Iechyd
- Mad Science
- Dan Evans Prospero—Rygbi/Rugby
- Criced Cymru/Wales cricket
- Janet Hawkins—Bible Explorers
- Cwn Clyfar
- Aron Evans—Lead Creative Schools
- Prosiect EHANGU Project—save the children
- Tím blynyddoedd cynnar/Early Years Team

# PROFIADAU 2023—2024 EXPERIENCES

**GWEITHGAREDDAU I GEFNOGI'R DYSGU**
**ACTIVITIES TO PROMOTE AND ENRICH THE CURRICULUM**

Etholiadau Cyngor ysgol ac Eco / School Council and Eco Council Elections
Etholiadau Criw Cymraeg / Welsh Ambassadors Elections
Cwis Dim Clem Menter Cwm Gwendraeth Elli / Dim Clem Quiz from Menter Cwm Gwendraeth Elli
Cyngerdd Carolau Nadolig gyda Chôr Meibion Mynydd Mawr/Christmas Carol evening with Mynydd Mawr Male Voice Choir
Gwersi Cerdd - Chwythbrennau, Prês a Fiolin / Peripatetic Lessons—Woodwind, Brass and Violin
Diwrnod T Llew Jones
Diwrnod Y Llyfr / World Book Day
Santes Dwynwen/St Dwynwen Day
Eisteddfod Ysgol / School Eisteddfod
Eisteddfod yr Urdd
Gweithgareddau Eco / Eco activities
Diwrnod cadw'n ddiogel ar lein / Keep safe online day.
Tripiau/Trips: Llangrannog, Llain, Pendine, Sgiliau, Dre Twts, Traeth
Clybiau —Chwaraeon, Gymnasteg, Urdd, Garddio, codio, côr, Mad Science / Clubs—Sports, Gymnastics, Urdd, Gardening, Coding, Choir, Mad Science

# CHWARAEON 2023—2024 SPORTS

Yn ystod y flwyddyn 2023-24 mae Ysgol Gorslas wedi rhoi cryn dipyn o bwyslais ar chwaraeon. Manteisiwyd yn gadarn ar waith canmoladwy y llysgenhadon chwaraeon ynghyd â chefnogaeth Actif Sir Gar. Braf oedd eu gweld yn paratoi gweithgareddau chwaraeon ar gyfer y disgyblion ifanc i gymryd rhan adegau egwyl neu cinio.
Caiff dathliadau a llwyddiannau personol plant bob amser eu cymeradwyo yng ngwasanaethau gwobrwyo ar ddiwedd yr wythnos.

We pride ourselves on placing a great deal of emphasis on sport. The work of the sports ambassadors has been fantastic and thank you to the support of Active Sir Gar. It was great to see them preparing sports activities for all pupils virtually in order for them to take part in break time and lunch time activities. Personal celebrations and successes are always commended in whole school assemblies at the end of the week.

**CHWARAEON:**

Llysgenhadon Efydd
Mabolgampau Ysgol
Cystadlaethau Pêl rwyd yr Urdd
Cystadlaethau Pêl droed yr Urdd
Cystadlaethau Rygbi Tag yr Urdd
Cystadlaethau Rhedeg Trawsgwlad
Cystadlaethau chwaraeon ACTIF
Nofio
Pontio Rygbi Maes y Gwendraeth

**SPORTS:**

Sport Ambassadors
School Sports Day
Urdd Netball Competitions
Urdd Football Competitions
Urdd Tag Rugby Competitions
Cross Country Competitions
ACTIVE sports competitions
Swimming
Maes  y Gwendraeth Rugby transition

# CYLLID YR YSGOL 2022—2023 SCHOOL FINANCE

Gwelir isod gwariant yr ysgol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r costau'n cynnwys cynhaliaeth staffio, cynnal a chadw'r adeilad a thalu am gyflenwad o adnoddau cwricwlaidd. Ni wnaed taliad ar gyfer treuliau teithio neu gynhaliaeth i'r un aelod o'r Corff Llywodraethu'r ysgol a ni dderbynnir unrhyw roddion.

See below for the school's summary of expenditure for the last academic year. The figures include staffing provision, the school's repair and maintenance costs including utility costs and the curricular supply of resources. No gifts, travelling or subsistence claims were made by any member of the governing body during the year.

Dymuna'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith cydwybodol yn ystod y flwyddyn a diolchir hefyd i'r rheini am eu cefnogaeth cyson.

The Governors and the Headteacher wish to thank all members of staff for their conscientious work throughout the year and also the parents for their continued support.

## DIWRNODAU HMS / INSET DAYS

01/09/24 22/12/23 08/01/24 19/02/24 19/04/24 03/05/24

### Tymhorau a Gwyliau Ysgol 2023/ 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2023 | Dydd Llun 4ydd Medi | Dydd Llun 30ain Hydref - Dydd Gwener 3ydd Tachwedd | Dydd Gwener 22ain Rhagfyr |
| Gwanwyn 2024 | Dydd Llun 8fed Ionawr | Dydd Llun 12fed Chwefror - Dydd Gwener 16eg Chwefror | Dydd Gwener 22ain Mawrth |
| Haf 2024 | Dydd Llun 8fed Ebrill | Dydd Llun 27ain Mai - Dydd Gwener 31ain Mai | Dydd Gwener 19eg Gorffennaf |

### School Terms and Holidays 2023/ 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Autumn 2023 | Monday 4th September | Monday 30th October - Friday 3rd November | Friday 22nd December |
| Spring 2024 | Monday 8th January | Monday 12th February - Friday 16th February | Friday 22nd March |
| Summer 2024 | Monday 8th April | Monday 27th May - Friday 31st May | Friday 19th July |